Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe

**Alltacham Drive**
**Pontardawe**
**Abertawe**
**SA8 4JX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe |
| Awdurdod lleol | Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 322 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 232 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 58 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 14.1% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 12.9% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 40.5% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2021 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 24/09/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 03/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

**(a)** Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae staff Ysgol Gynradd Pontardawe yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu profiadau gwerthfawr sy'n cyfoethogi gwybodaeth ac adnabyddiaeth disgyblion o'u hardal leol. Trwy eu cwricwlwm pwrpasol 'Trysorau Tawe', maent yn addysgu eu disgyblion mewn modd ysgogol am eu diwylliant a'u treftadaeth yn hynod lwyddiannus. Mae disgyblion yn eu tro yn elwa o ymweld â sesiynau mewn canolfan amgylcheddol gyfagos. Maent yn siarad yn frwd am eu profiadau yno yn cymryd rhan mewn gweithgareddau difyr a chyffrous sy'n datblygu eu medrau cydweithio a'u hunanhyder yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i gefnogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a digidol mewn themâu ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth a'r tîm arwain yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae eu trefniadau i adnabod cryfderau ac agweddau sydd angen eu gwella yn fanwl. Mae'r corff llywodraethol yn weithgar ac yn cefnogi a herio'r ysgol yn fwriadus. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryf ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson rhwng yr ysgol a'r cartref. Yn dilyn y pandemig, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chyfeillgar gydag ethos gofalgar a chefnogol. Mae trefniadau gwrando ac ymateb I lais disgyblion yn golygu eu bod yn dylanwadu ar yr hyn maent am ei ddysgu a dewis yr adnoddau sy'n eu cefnogi i ddysgu hyd orau eu gallu yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eang a chynhwysfawr.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chreu cwricwlwm leol sy'n unigryw i'r ysgol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Ar fynediad i'r ysgol, mae'r disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg yn dysgu'r iaith yn gyflym, ac yn datblygu hyder wrth siarad a chanu wrth berfformio o flaen eraill. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion ac yn dangos parch at farn disgyblion eraill. Er enghraifft, drwy ymweliad ag afon Tawe, mae'r disgyblion yn cynnig syniadau buddiol i atal llygredd. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n rhugl yn Saesneg ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ac yn parchu safbwyntiau eraill wrth drafod testunau amrywiol yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae geirfa gyfyngedig a chystrawennau chwithig yn llesteirio hyder lleiafrif y disgyblion i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg.

Mae medrau darllen mwyafrif disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn darllen yn glir a chywir gan adeiladu geiriau anghyfarwydd yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn darllen Saesneg yn hyderus. Maent yn talu sylw gofalus i atalnodi ac yn newid goslef llais er mwyn creu effaith wrth ddarllen sgwrs gwahanol gymeriadau mewn nofel. Mae llawer o ddisgyblion yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i gyfoethogi eu gwaith neu wrth ymateb i dasgau penodol yn y ddwy iaith. Mae mwyafrif disgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio technegau fel llithr ddarllen yn effeithiol er mwyn dod o hyd i wybodaeth allweddol o destun. Er nad yw medrau darllen Cymraeg mwyafrif y disgyblion hynaf mor ddatblygedig, maent yn arddangos pleser gwirioneddol wrth ddarllen a thrafod cynnwys testunau ac yn trafod llyfrau eu hoff awduron yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar mwyafrif y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth Derbyn yn dechrau creu llythrennau a chyfateb seiniau a llythrennau yn gynnar. Erbyn Blwyddyn 3, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y disgyblion mwyaf abl Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus gan ddefnyddio cystrawennau cymhleth yn bwrpasol, ac yn atalnodi'n gywir, ar y cyfan. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar ffurf ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol wrth ymgeisio am swydd yn Ysgol Hogwarts.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Maent yn defnyddio dulliau cyfrifo yn y pen i ddatrys problemau arian ac yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus i ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn amcangyfrif ac yn mesur cynhwysedd wrth gymharu deunyddiau drwy ddarganfod pa

ddefnydd sy'n amsugno'r mwyaf o ddŵr. Ym mlynyddoedd hynaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhif, gan adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn trafod gwahanol ffyrdd o gyfrifo problemau lluosi hir a rhannu hir yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu dulliau mathemateg yn effeithiol, er enghraifft wrth adio a thynnu cyfansymiau hyd at £1000 i brynu drachtiau hudol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd cadarn o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer electronig yn effeithiol. Mae disgyblion y dosbarth Derbyn, er enghraifft, yn cofnodi eu gwaith yn yr ardal allanol yn ddigidol, a disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio cronfeydd data syml i gofnodi eu hoff fandiau Cymraeg. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn fedrus ac yn annibynnol mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft wrth gyflwyno eu canfyddiadau mewn bas data yn seiliedig ar fywyd gwyllt morglawdd bae Abertawe. Yn ogystal, maent yn craffu ar a threfnu'r wybodaeth yn hyderus i ddarganfod ffeithiau penodol i gadarnhau eu dealltwriaeth. Mae bron pob disgybl yn defnyddio cyfrineiriau'n ddiogel a phwrpasol wrth fewngofnodi i wefannau dysgu i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn siarad yn frwd am eu profiadau a'r hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn gwrtais a pharchus at ei gilydd, gyda staff ac ymwelwyr yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyfarch yn serchus, yn gyfeillgar â'i gilydd ac yn dal drysau i eraill wrth fynd o gwmpas yr ysgol. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt.

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda am sut i gadw eu hunain, ac eraill, yn ddiogel ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cyd-chwarae'n fodlon. Mae'r 'llysgenhadon chwaraeon' yn gwrando ar farn eu cyd-ddisgyblion ac wedi prynu adnoddau ar gyfer y buarth i'w defnyddio yn ystod amseroedd egwyl, er enghraifft. Mae'r defnydd o offer ffitrwydd, yn ogystal â sesiwn ymarfer corff dyddiol y 'chwarter chwim', yn sicrhau bod bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol ac yn ymgymryd ag ef yn rheolaidd. Mae'r disgyblion hynaf yn elwa o'r ystod o glybiau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol, er enghraifft y clwb rygbi.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, gwna'r disgyblion ddefnydd da o'r siop ffrwythau, gyda'r disgyblion hynaf yn cymryd perchnogaeth a'i chynnal yn llwyddiannus. Maent yn siarad yn angerddol am effaith diodydd llawn siwgr ar y corff. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion a moesau cytûn yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n dda mewn gwasanaethau a gwersi sy'n hyrwyddo rhinweddau pwysig fel eu dealltwriaeth o degwch, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n mwynhau ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon trafod eu gwaith gyda'u cyfoedion. Maent yn dangos parch at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad wrth gwblhau

tasgau ac yn deall pwysigrwydd cynnal agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Maent yn esbonio bod gwneud camgymeriadau a dyfalbarhau yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent am ei ddysgu; er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cynnig syniadau synhwyrol ar beth i ddysgu am griw o anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig gyfagos. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn dewis teithiau addysgol er mwyn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Cafodd eu taith ddiweddar i stiwdio greadigol effaith gadarnhaol ar les disgyblion yn ogystal â'u hysgogi i weithio'n greadigol yn ôl yn yr ysgol.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r holl athrawon yn cydgynllunio'n effeithiol i sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau gwerthfawr sy'n cyfoethogi eu gwybodaeth ac adnabyddiaeth drylwyr o'r ardal leol. Trwy eu cwricwlwm pwrpasol 'Trysorau Tawe', mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau ar draws y meysydd dysgu ac yn dwysau dealltwriaeth disgyblion o'r ardal leol yn. Er enghraifft, o ganlyniad i ddarllen y stori Tŷ ar y Tawe, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn creu llwybr stori, rafft i arnofio ac arbrofion amsugno dŵr.

Mae gweledigaeth yr ysgol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n effeithiol gyda'r holl athrawon yn cynllunio'n  bwrpasol yn unol â'r 6 maes dysgu a phrofiad gan fanteisio ar gynnwys elfennau o'r pedwar diben. Mae'r gweithgareddau yn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd a digidol ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn ac yn bwrpasol. Mae bron bob gweithgaredd yn yr ardaloedd yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn fedrus. Mae athrawon yn gwneud defnydd cyson o'r dosbarth tu allan i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae adnoddau gweledol ysgogol sy'n hyrwyddo medrau ieithyddol a rhif yn amlwg yn yr ardaloedd hyn er mwyn atgyfnerthu'r dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn trefnu ymweliadau â chanolfan amgylcheddol gyfagos yn rheolaidd sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn yr awyr agored; er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau mewn gweithgareddau adeiladu tîm, wrth greu bocsys adar a defnyddio offer cywir i naddu pren.

Mae dulliau 'Drilio Disglair' a 'Sgleinio ein Sgwrsio' yn cael eu defnyddio drwy'r ysgol gyfan yn ddyddiol i wella medrau llafar Cymraeg disgyblion, er enghraifft eu medrau trafod.  Trwy ddefnyddio clipiau fideo o wahanol ddosbarthiadau yn dweud patrymau llafar Cymraeg cywir i'w hailadrodd fel dosbarth cyfan, mae llawer o ddisgyblion, yn enwedig plant ieuengaf yr ysgol, yn llawn brwdfrydedd wrth ddefnyddio'r patrymau wrth drafod a sgwrsio'n gynyddol hyderus. Nid yw'r dulliau hyn wedi eu gwreiddio'n ddigon cyson yn y ddarpariaeth i gael effaith gadarnhaol ar gywirdeb medrau llafar lleiafrif y disgyblion.

Mae athrawon yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, er enghraifft trwy gerdded milltir yn y sesiwn ‘chwarter chwim’ dyddiol. Maent yn annog disgyblion i ddyfalbarhau, cydweithio, ymdrechu a datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu yn fedrus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, mentrus, iach ac egwyddorol. Mae ymweliadau swyddog yr heddlu yn cyfrannu’n bwrpasol at atgyfnerthu sut i fod yn ddiogel ar-lein a chodi ymwybyddiaeth disgyblion o beryglon arfaethedig ehangach cymdeithas.

Mae gan staff berthynas dda â’r disgyblion, sy’n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Yn y rhan fwyaf o’r sesiynau dysgu, mae’r athrawon yn siarad Cymraeg cywir, sydd yn ei dro yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn gywir yn yr iaith. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn datblygu’r gweithgareddau gyda chyflymder addas. Defnyddiant ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion, er enghraifft wrth ddarparu tortshys uwch-fioled i alluogi disgyblion i chwilio am eiriau cyfarwydd mewn llun o goeden. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn defnyddio dulliau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o wahanol gyd-destunau dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion, ac ar y cyfan, yn cynnig adborth ysgrifenedig sydd yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn bwrpasol. Rhoddir cyfleoedd cyson i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn unol â disgwyliadau'r weithgaredd. Trwy wneud hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i wella eu gwaith ac yn gallu egluro beth yw’r camau nesaf yn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae arweinwyr a staff yn cydweithio’n effeithiol i greu cymuned hapus mewn amgylchedd dysgu diogel. Mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae iechyd a lles corfforol ac emosiynol disgyblion yn cael lle blaenllaw ym mywyd yr ysgol, gydag amrywiaeth o gyfleoedd i gadw’n heini trwy weithgareddau amrywiol sy’n cynnwys rhai pêl droed gyda chlwb lleol. Mae gan yr ysgol drefniadau perthnasol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw’n iach ac heini.

Mae gwasanaethau dyddiol ac ymweliadau gan aelodau o'r gymuned yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol, gyda chyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar faterion cyfoes a chrefyddau eraill. Serch hyn, nid yw'r cynlluniau ar gyfer addysgu disgyblion am gymunedau amlddiwylliannol a pherthnasoedd amrywiol yn cael eu cyflwyno’n ddigon bwriadus bob tro. Mae athrawon yn hyrwyddo cysylltiadau lleol gyda mannau addoli gwahanol grefyddau yn achlysurol. Mae hyn yn arwain at feithrin diwylliant cryf o barch a chydraddoldeb ymysg disgyblion ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel tegwch a pharch tuag at eraill. Caiff hyn ei amlygu gydag ymgyrch lwyddiannus sydd wedi ei harwain gan ddisgyblion i gasglu rhoddion ar gyfer y banc bwyd lleol. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol yn hynod effeithiol trwy ddarparu cyfleoedd priodol i ddatblygu profiadau buddiol i ddisgyblion werthfawrogi’r dreftadaeth leol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddylanwadu ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae aelodau’r senedd yn ymateb i anghenion eu cyfoedion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ymateb i lais eu cyfoedion trwy archebu adnoddau digidol sy’n cyfrannu at godi safonau medrau digidol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu eu llais at y gweithgareddau sy’n atgyfnerthu a chyfoethogi’r gwaith thematig. O ganlyniad, mae disgyblion yn frwdfrydig ac yn ymrwymo’n llawn i’r gweithgareddau.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn briodol, er enghraifft drwy berfformio a chystadlu yn yr ysgol ac mewn cystadlaethau ac eisteddfodau. Enghraifft nodedig o hyn yw’r cyfleoedd a ddarparwyd i ddisgyblion gydweithio ag artistiaid lleol i greu cyfres o furluniau yng nghampfa’r ysgol i ddathlu tafodiaith, diwylliant a threftadaeth yr ardal leol. Mae hyn yn datblygu medrau creadigol a hunanhyder disgyblion yn fedrus ac yn cyfrannu’n fuddiol at feithrin parch disgyblion at eu gwaith.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn hynod effeithiol. Mae anghenion y disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae'r rhaglenni cymorth yn diwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu cynlluniau datblygu unigol cynhwysfawr a phwrpasol i ddisgyblion sydd yn cynnwys cyfleoedd i’w hadolygu yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ag amrywiaeth o wasanaethau cynhaliol ac asiantaethau allanol, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysg.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth glir sy’n seiliedig ar sicrhau bod pob disgybl yn derbyn yr addysg orau posibl mewn amgylchedd cartrefol a diogel. Mae’n rhannu’r weledigaeth gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni yn llwyddiannus. Mae aelodau’r tîm rheoli yn datblygu eu rôl strategol yn effeithiol ac maent yn cefnogi’r pennaeth yn fwriadus. O ganlyniad, mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac ethos o gydweithio agos yn bodoli ar draws yr ysgol.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso’r dysgu a’r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth yn effeithiol i gaffael darlun clir o berfformiad yr ysgol. Maent yn paratoi adroddiadau monitro manwl sydd yn adnabod cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir. Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth o’r prosesau hunanwerthuso yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Mae’r blaenoriaethau yn canolbwyntio’n gadarn ar godi safonau medrau disgyblion, gan baratoi’n effeithiol ar gyfer dyfodiad y rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i wella safonau llafar disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i’r ysgol yn dilyn y cyfnodau clo. Maent yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymarfer siarad Cymraeg yn rheolaidd er mwyn codi safonau.

Mae’r pennaeth yn meithrin perthynas gref gyda rhieni ac maent yn gwerthfawrogi’r cyfathrebu clir rhwng yr ysgol a’r cartref. Mae arweinwyr yn gofyn am farn rhieni yn rheolaidd drwy holiaduron pwrpasol ac maent yn eu dadansoddi’n fanwl ac yn

ymateb yn briodol i'w hymatebion, er enghraifft wrth addasu adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plant.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol ac maent yn ei hadnabod yn dda. Maent yn defnyddio eu harbenigeddau gwahanol i gefnogi a herio arweinwyr yn effeithiol. Er nad yw trefniadau arferol y llywodraethwyr o ymweld â gweithgareddau wedi ailgydio'n llwyr ers y pandemig, maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy drefniant is-bwyllgorau. Mae hyn yn eu galluogi i holi a herio staff cyn bwydo nôl i'r corff llywodraethol llawn. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio ag arweinwyr a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ag yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys.

Mae'r pennaeth yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol gyda chymorth parod a phrofiadol aelod o'r corff llywodraethol. Mae arweinwyr yr ysgol yn gwneud defnydd da o amrywiaeth o grantiau er mwyn sicrhau digon o adnoddau o safon uchel sydd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol, er enghraifft. Mae staff yn defnyddio'r ardaloedd yn effeithiol i ysbrydoli disgyblion wrth gynnig profiadau dysgu ysgogol iddynt. Caiff y grant datblygu disgyblion ei ddefnyddio'n effeithiol i gynnig cefnogaeth staff arbenigol ac i sicrhau bod pob disgybl yn medru mynd ar deithiau addysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn medru manteisio ar gyfleoedd addysgol pwrpasol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar eu safonau a lles.

Mae profiadau dysgu proffesiynol staff yn cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn aelodau pwysig o dîm yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n gyson at godi safonau addysgol, lles a chymdeithasol disgyblion. Maent yn ymgymryd â'r broses rheoli perfformiad yn llawn gan ymateb yn bositif i godi safonau llafar disgyblion. Mae parodrwydd staff i ymchwilio i'w hardal leol er mwyn cynllunio a chyflwyno cwricwlwm sy'n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/07/2022